

## Bocsys Nadolig

Mae taflenni bocsys Ymgyrch Plentyn y Nadolig wedi cyrraedd ac os ydych am gymryd rhan a chefnogi'r apêl eleni mae angen i'r bocsys fod yn barod **erbyn dydd Sul, Tachwedd 17, sy'n golygu bod gennych bythefnos yn fwy nag a ddywedwyd y Sul diwethaf.** Dowch â'r bocsys neu'r rhoddion i'r Gweinidog erbyn hynny os gwelwch yn dda.

Mae'r trefniadau wedi newid eleni a bydd rhaid mynd â'r bocsys i Wrecsam yn hytrach nag i Landrillo yn Rhos fel a wnaed ers rhai blynyddoedd.

## Cardiau Nadolig

Roedd cardiau Nadolig Cyngor Ysgolion Sul i'w cael yn y cyfarfod yn Salem Caernarfon nos Fercher. Maent ar werth am £2 y pecyn gan Valerie Jones, Bryn Gelli gyda'r elw at Ysgol Sul, Capel Coch. Gellwch ffonio 871150 i archebu pecynnau o gardiau.

A bydd cardiau ar werth yn Neiniolen hefyd gan Mrs Jane Thorman Jones am £2 y pecyn gyda'r elw at Ysgol Sul Deiniolen.

### Y mis nesaf - Deiniolen

#### Hydref 26

5.00 p.m. - Y Parchg W R Williams

#### Tachwedd 2

9.30 a.m. - Y Gweinidog  
10.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Y Gweinidog

#### Tachwedd 9

10.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Y Parchg Reuben Roberts

## Cyhoeddiadau

### CEFNYWAUN AC EBENESER

**Dydd Sul, Tachwedd 2:** Gwasanaethir yn y ddwy oedfa am 9.30 a 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch.

### CAPEL COCH A NANT PADARN

**Dydd Sul, Tachwedd 2:** Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Parchg Glenys Jones, Pwllheli ac am 5.00 o'r gloch gan y Canon Idris Thomas, Deiniolen. Ni fydd Ysgol Sul.

### REHOBOTH

**Dydd Sul, Tachwedd 2:** Ni fydd oedfa.

### CYNLLUN EFE

**Dydd Gwener, Hydref 31:** Ni fydd y Cyfarfod Gweddi yn cael ei gynnal yr wythnos hon.



### Y mis nesaf - Llanberis

#### Hydref 26

10.00 a.m. - Y Gweinidog  
5.00 p.m. - Y Gweinidog  
**Dim Ysgol Sul**

#### Tachwedd 2

10.00 a.m. - Y Parchg Glenys Jones  
5.00 p.m. - Y Canon Idris Thomas  
**Dim Ysgol Sul**

#### Tachwedd 9

10.00 a.m. - Y Gweinidog  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Oedfa MOLI



# Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris  
Rhif 610 – Dydd Sul, 26 Hydref, 2014

## Rhedeg y ras

Llongyfarchiadau mawr iawn i Alun Vaughan ar ennill Marathon Eryri ddoe. Mor braf yw gweld gŵr lleol a fagwyd yn Llanberis yn ennill y ras hon sy'n denu rhedwyr o bell ac agos, a phell iawn! Mae'r rhai ohonom na fu erioed yn agos i linell gychwyn yr un ras yn gorfod edmygu dawn a dewrder y rhai sy'n mentro rhedeg y fath bellter. Ond nid dawn a dewrder yn unig sy'n cyfrif mewn marathon ond dycnwch a dyfalbarhad, ac mae pawb sy'n nabod Alun yn gwybod mai blynyddoedd o ymarfer ac o ddal ati sy'n gyfrifol am y llwyddiant a'r buddugoliaethau a gaiff.

Mi biciais draw i Goleg Y Bala bnawn ddoe (yn y car, nid ar droed!) i gael blas ar rywbeth a oedd – yn ddigon priodol o gofio'r Marathon – yn cael ei alw 'Rhedeg y Ras'. Doedd yno fawr o redeg chwaith (os na wnaed hynny cyn i mi gyrraedd). Ar gyfer pobl ifanc oedd y diwrnod, ac o gofio'r teitl, nid syndod oedd clywed y geiriau hyn o'r Llythyr at yr Hebreaid: 'Am hynny ... gadewch i ninnau fwrw ymaith bob rhwystr, a'r pechod sy'n ein maglu mor rhwydd, a rhedeg yr yrfa sydd o'n blaen heb ddiffygio, gan gadw ein golwg ar Iesu' (Heb. 12:1-2).

Un peth a welsom ni'n glir iawn oedd mai ras hir fel marathon – ras oes, mewn gwirionedd – ydi'r ras y mae'r Llythyr at yr Hebreaid yn sôn amdani. Darlun o'r bywyd Cristnogol ydi'r 'ras' y mae'r Beibl yn sôn amdani wrth gwrs. Y peth pwysig am unrhyw ras yw bod y rhedwyr yn dal ati, hyd yn

oed pan fydd pethau yn anodd, er mwyn medru cyrraedd y llinell derfyn a gorffen y ras.

Dangoswyd i ni bod rhedeg y ras yn llwyddiannus yn gofyn am ymarfer, ac am dycnwch i ddal ati hyd yn oed pan yw pethau yn anodd a chaled. Mae gwerth mawr i redeg gyda phobl eraill. Mae'n haws rhedeg yng nghanol tyrfa nag ar ein pen ein hunain am fod pobl eraill yn medru ein hannog a'n helpu. Ac mae'r un peth yn wir am y bywyd Cristnogol: mae'n haws dyfalbarhad yn hwnnw yng nghwmni pobl eraill, ac mae Cristnogion yn medru annog ei gilydd a helpu ei gilydd i fyw'r bywyd glân a ffyddlon er mwyn Iesu Grist. Mae cyfarfodydd fel y rhai a gafwyd yn Y Bala ddoe yn amlwg yn help i bobl ifanc i ddilyn Iesu. Nid yw'n hawdd i'r un ohonom i ddilyn Iesu a thystio iddo heddiw, yng nghanol pobl sy'n aml iawn yn wrthwynebus i bob dim a gredwn am Dduw a'r Iesu. Mae'n fwy anodd fyth i bobl ifanc, mae'n debyg. A dyna pam ei bod mor braf gweld cymaint ohonynt yn Y Bala ddoe i gael help i redeg y ras yn llwyddiannus. Dowch i ni weddio dros Gristnogion ifanc ein gwlad, iddynt fedru rhedeg y ras arbennig hon yn llawen a hyderus er mwyn Iesu Grist.

Mor braf oedd gweld pobl ifanc yn mwynhau addoli a thrafod eu ffydd. Y piti mawr yw na fyddai mwy o hen bobl fel fi i weld peth mor rhyfeddol. (Diolch i Gwynfor James, Deiniolen - *SportspicturesCymru* – am y llun.)

## Gofalaeth Unedig Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon Sul arall. Boed i Dduw fendithio ein haddoliad.

Bydd yr Ysgol Sul yn Neiniolen am 10.15 o'r gloch a chynhelir oedfa am 5.00 o'r gloch dan arweiniad y Parchg W. R. Williams, Y Felinheli. Croeso cynnes iddo unwaith eto a diolch iddo am ei wasanaeth.

Cynhelir oedfaon yn Capel Coch am 10.00 a 5.00 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog. Ni fydd Ysgol Sul heddiw.

Ni fydd oedfa yn Rehoboth heddiw.

## Cofion

Anfonwn ein cofion gorau at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

## Diolchgarwch

Cynhaliwyd Cyfarfod Diolchgarwch y Plant yn Neiniolen fore Sul diwethaf. Diolch yn fawr i athrawon yr Ysgol Sul am eu help i baratoi ar gyfer yr oedfa, a diolch i'r plant i gyd am gymryd rhan.

Roedd yn oedfa braf iawn, ac rwy'n siwr bod pawb a oedd yno wedi mwynhau a chael bendith.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Keith a Sioned Jones, 88 Maes Padarn, Llanberis a theulu Mrs Mona Jones, 17 Dôl Eilian, Llanberis a fu farw ddydd Gwener, Hydref 17. Roedd ei hangladd yn Eglwys Padarn Sant, Llanberis ddydd Iau, Hydref 23. Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd at June a'i theulu hithau yn eu profedig-aeth.

## Henaduriaeth Arfon

Cynhaliwyd cyfarfodydd Henaduriaeth Arfon yn Capel Coch ddydd Mawrth diwethaf dan lywyddiaeth y Parchg Gwen-da Richards, Caernarfon.

Roedd gwasanaeth dechreuol cyfarfod y prynhawn yng ngofal Miss Dilys Mai Roberts, Mr Colin Jones a'r Gweinidog.

Cafwyd sgwrs gan y Parchg Gwyn Rhydderch, Tudweiliog, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Plant ac Ieuencid Eglwys Bresbyteraidd Cymru am Gynllun CAMU sy'n annog eglwysi i feddwl o'r newydd am eu cenhadaeth ymhlith plant a theuluoedd.

Yng nghyfarfod yr hwyr ordeiniwyd dau o flaenoriaid newydd o Eglwys y Waun, Waunfawr. Cafwyd pregeth gan y Parchg Elwyn Richards, Caernarfon, Ysgrifennydd yr Henaduriaeth ond sydd hefyd eleni yn Llywydd Cymdeithasfa'r Gogledd.

Rhwng y ddau gyfarfod, roedd te wedi baratoi ar gyfer yr ymwelwyr.

Diolch yn fawr iawn i bawb ohonoch a gyfrannodd fwyd at y te, a diolch yn arbennig i'r merched a fu yno trwy'r pawns yn gweini'r bwyd.

Diolch yn fawr am eich gwaith caled, ac am sicrhau bod mwy na digon o fwyd i bawb.

## Cyfarfod Chwarter

Roedd Cyfarfod Chwarter a Chyfarfod Pregethu Annibynwyr Gogledd Arfon yng nghapel Carmel, Llanllechid nos Fercher diwethaf dan lywyddiaeth Mr Cynrig Hughes, Pentir. Croesawyd y pregethwr gwadd, sef y Parchg John Gwilym Jones, Peniel, Caerfyrddin, cyn weinidog Pendref, Bangor.

## CIC

Cynhaliwyd CIC yn Capel Coch nos Wener, a diolch unwaith eto i Gwenno, Dafydd ac Andrew am ei arwain.

Bydd y cyfarfod nesaf am 7.00 o'r gloch, nos Wener, Tachwedd 14.

Ond bydd hogia hynaf CIC yn mynd i rasio go-karts yng Nghaernarfon yfory, a diolch i Andrew am drefnu'r cyfan. Gobeithio bydd pawb yn mwynhau eu hunain.

## Cyfarfod Gweddi Efe

Gan ei bod yn hanner tymor yr ysgol ni fydd Cyfarfod Gweddi Efe yn cael ei gynnal yr wythnos hon.

Cynhelir y Cyfarfod Gweddi nesaf yn nhy Andrew Settatee, Cartref, Caeathro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch fore Gwener, Tachwedd 7. Croeso i unrhyw un ddod atom, ac nid oes rhaid poeni am fedru dod bob wythnos.

## Cyfarfod Blynyddol Cynllun Efe

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Cynllun Efe yng Nghapel y Rhos am 7.00 o'r gloch wythnos i nos yfory, nos Lun, Tachwedd 3.

Gwahoddir chi oll i'r cyfarfod hwn a fydd yn adrodd am waith Efe dros y flwyddyn.

Mae'r cyfarfod hwn yn gyfle bob blwyddyn i adrodd am waith Efe, ac yn gyfle i'r eglwysi ddangos eu cefnogaeth i'r Cynllun ac i Andrew Settatee, ein gweithiwr ieuencid.

## Dosbarth Beiblaidd

Bydd Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn ail gychwyn nos Fercher, Tachwedd 5. Bydd yn gyfle da i rai newydd ohonoch ddod i'r cyfarfod. Byddei'n dda gweld rhagor yn dod i fwynhau'r gymdeithas arbennig sydd ynddo. Dowch, da chi.

## Cymdeithas Undebol

Mr Geraint Jones, Trefor, fydd y gŵr gwadd yng Nghymdeithas Undebol Deiniolen nos yfory, nos Lun, Hydref 27. Bydd y cyfarfod yn Nhŷ Elidir am 7.00 o'r gloch. Testun y sgwrs fydd 'John Preis', y crwydryn o ardal Capel Uchaf yr ysgrifennodd Geraint Jones ei hanes mewn cyfrol a gyhoeddwyd yn gynharach eleni. Croeso cynnes i bawb.

## Ffair Nadolig

Cynhelir Ffair Nadolig yn Capel Coch am 2.30 o'r gloch, ddydd Mercher, Tachwedd 26 er budd Cronfa Cynnal a Chadw'r capel.

Bydd amrywiaeth o stondinau, ac arnynt nwyddau Nadolig. Bydd y byrddau gwerthu arferol ar gyfer bric-a-brac, llyfrau, cacennau ac ati.

Os oes gennych nwyddau ar gyfer y byrddau, byddem yn falch iawn ohonynt er mwyn sicrhau llwyddiant y Ffair.

Pris mynediad yn cvnnwys paned a chacen fydd £1.